
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus

Dogfen **Hawdd ei Deall** gan Lywodraeth Cymru



Rhowch eich barn erbyn dydd Mercher 27 Mawrth 2019

**Ionawr 2019**

# Defnyddio'r ddogfen hon

## Fersiwn Hawdd ei Deall

Mae hon yn fersiwn Hawdd ei Deall o'r Papur Gwyn. Mae'r geiriau ynddi a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd eu darllen a'u deall.

Efallai y bydd angen help arnoch i ddarllen y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun eich helpu.

Efallai y bydd rhai geiriau yn anodd eu deall. Mae'r rhain mewn **ffont glas trwm** ac yn cael eu hegluro yn y blwch o dan y gair.

Os oes unrhyw un o'r geiriau hyn yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn, byddan nhw mewn ysgrifen las normal. Os ydych chi'n gweld geiriau mewn ysgrifen las normal, gallwch edrych i weld beth maen nhw'n ei feddwl yn y **Rhestr o eiriau anodd** ar dudalen 27.

Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hynny'n golygu **Llywodraeth Cymru**.

I gael rhagor o gopïau o'r fersiwn Hawdd ei Deall, cysylltwch â'r Is-adran Drafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru a byddwn yn hapus i'ch helpu.

E-bost: PublicTransport.engagement2019@llyw.cymru

# Cynnwys

## Beth sydd yn y llyfryn hwn?


| | |
|---|---|
| Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn? | 4 |
| Rhan 1 – bysiau | 6 |
| Rhan 2 – tacis a cherbydau hurio preifat | 16 |
| Dweud eich barn | 26 |
| Rhestr o eiriau anodd | 27 |

# Am beth mae’r ddogfen hon yn sôn?

Mae’r ddogfen hon yn sôn am fysiau a thacsis a cheir hurio preifat. Mae’n trafod y newidiadau rydyn ni am eu gwneud iddyn nhw ac i sut maen nhw’n cael eu rhedeg yng Nghymru.



Cerbyd yw tacsi y gallwch chi alw arno ar y stryd. Mae cerbyd hurio preifat yn un y mae’n rhaid ichi ffonio i’w gael.

Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yn bwysig. Maen nhw’n ein helpu i symud o gwmpas.



Rydyn ni eisiau system trafnidiaeth gyhoeddus dda. System sy’n cysylltu bysiau a threnau a cherdded a beicio.

Rydyn ni eisiau gwneud tacsis a cherbydau hurio preifat yn fwy diogel.



Rydyn ni eisiau i fwy o bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle eu ceir.

Rydyn ni am i’r aer fod yn lanach ac rydyn ni am ofalu am yr amgylchedd.

Mae'r ddogfen hon yn cael ei galw'n Bapur Gwyn. Mae'n sôn am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i wella:

1. Bysiau

2. Tacsis a cherbydau hurio preifat




I wneud hynny, efallai y bydd angen inni wneud cyfreithiau newydd.



Rydyn ni am ichi roi'ch barn am y newidiadau.

Does dim rhaid ichi ateb bob cwestiwn. Chi sydd i benderfynu.

# Rhan 1 – bysiau


## Pam mae angen newidiadau

Mae llai o bobl yn defnyddio bysiau bob blwyddyn.



Mae pobl wedi dweud wrthym am rai o'r rhesymau pam dydyn nhw ddim yn defnyddio bysiau. Dyma rai ohonyn nhw:

- Dydy bysiau ddim yn cael eu cysylltu'n dda gyda mathau eraill o drafnidiaeth



- Mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth am fysiau
- Dydy'r wybodaeth sydd ar gael am fysiau ddim yn wybodaeth ddiweddar
- Dydy bysiau ddim yn mynd i le mae pobl am iddyn nhw fynd



- Dydy tocynnau ddim yn gweithio fel y mae angen iddyn nhw wneud
- Mae rhai tocynnau'n costio gormod.




Mae pob awdurdod lleol yn edrych ar ôl bysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus arall yn ei ardal.

Rydyn ni'n meddwl y byddai cyfreithiau newydd yn helpu'r awdurdodau lleol i wella sut maen nhw'n edrych ar ôl eu bysiau.

Byddwn ni'n sôn am rai o'r syniadau sydd gyda ni ar y tudalennau nesaf.

## Syniad 1 – Creu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth



Mae pob awdurdod lleol yn edrych ar ôl bysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus arall yn eu hardal.

Rydyn ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i edrych ar ôl bysiau.



Er mwyn gwneud hynny, rydyn ni'n meddwl y dylen ni drefnu 'Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth'. Byddai'r rhain yn helpu'r awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd.

Rydyn ni'n credu y byddai cael awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd yn helpu i wella'r ffordd mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithio.




Mae gyda ni'r pwerau i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Hoffen ni wneud cyfreithiau newydd er mwyn inni allu ysgrifennu **canllawiau** ar sut y byddai Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth yn gweithio.

> Dogfen yw canllawiau sy'n eich helpu i wneud yr hyn mae'n rhaid ichi ei wneud.

Rydyn ni hefyd am wneud cyfreithiau newydd er mwyn inni gael dweud sut bydd Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth yn gweithio.

Ydych chi’n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Rydyn ni’n meddwl bod 2 ffordd o drefnu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth.



1. Un Cyd-awdurdod Trafnidiaeth ar gyfer Cymru gyfan

2. Un Cyd-awdurdod Trafnidiaeth ar gyfer Cymru gyfan a 3 Chyd-awdurdod Trafnidiaeth **rhanbarthol**.

Mae’r gair rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pethau sydd mewn ardal benodol o’r wlad.

Pa ffordd sydd orau yn eich barn chi?

## Syniad 2 – Partneriaethau Ansawdd Estynedig

Rydyn ni'n meddwl y gallai gwasanaethau bysiau fod yn well pe byddai awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau yn gweithio gyda'i gilydd yn well.




I helpu gyda hyn, rydyn ni am wneud cyfreithiau newydd fel bod awdurdodau lleol yn gallu trefnu 'Partneriaethau Ansawdd Estynedig'.

Byddai 'Partneriaethau Ansawdd Estynedig' yn dweud sut gallai awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau weithio gyda'i gilydd ar wasanaethau bysiau.



Gallai awdurdodau lleol weithio gyda cwmnïau bysiau i gytuno ar wasanaethau bysiau ar gyfer eu hardal. Gallen nhw gytuno ar bethau fel:

- pa wasanaethau bysiau fydd yn rhedeg
- pa fysiau fydd yn cael eu defnyddio
- y mathau o docynnau y gall pobl eu prynu.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?


Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

# Syniad 3 – Masnachfreinio



Rydyn ni am i awdurdodau lleol allu **masnachfreinio** gwasanaethau bysiau.

Masnachfreinio yw pan fydd gan un cwmni bysiau gytundeb i redeg rhai gwasanaethau bysiau. Dydy cwmnïau eraill ddim yn cael rhedeg yr un gwasanaethau.




Byddai hyn yn golygu y byddai gan awdurdodau lleol yr hawl i ddweud lle gallai bysiau fynd a phryd gallen nhw fynd.

Rydyn ni am newid y gyfraith fel bod awdurdodau lleol yn gallu masnachfreinio gwasanaethau bysiau os ydyn nhw'n teimlo mai dyma'r peth iawn i'w wneud.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

## Syniad 4 – Gwasanaethau bysiau awdurdodau lleol




Weithiau does dim digon o gwmnïau bysiau am redeg gwasanaethau bysiau mewn ardal.

Weithiau does dim unrhyw gwmnïau bysiau o gwbl am redeg gwasanaethau bysiau mewn ardal.

Does gan awdurdodau lleol ddim hawl i redeg gwasanaethau.

Mae hyn yn golygu does gan rai pobl ddim gwasanaethau bysiau o gwbl lle maen nhw'n byw.




Rydyn ni am newid y gyfraith fel bod awdurdodau lleol yn gallu rhedeg eu gwasanaethau bysiau eu hunain os ydyn nhw  eisiau gwneud hynny.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw        Nac ydw        Ddim yn siŵr

## Syniad 5 – Newid y bobl sy’n cael pàs bws am ddim



Ar hyn o bryd pobl 60 oed a hŷn sy’n gallu cael pàs bws.

Mae’r pàs bws yn golygu bod pobl yn cael teithio am ddim ar unrhyw fws yng Nghymru.

Mae pasys bws yn boblogaidd iawn.



Mae pasys bws yn costio llawer o arian inni.

Un ffordd rydyn ni’n meddwl y gallen ni arbed arian yw newid yr oedran pryd mae pobl yn gallu cael pàs bws.

Rydyn ni am ei newid i’r un oedran ag y mae menywod yn cael **pensiwn gwladol**. Yr oedran hwnnw yw 65 ar hyn o bryd ond bydd yn fwy na hynny yn y dyfodol.

Arian sy’n cael ei dalu i bobl gan y llywodraeth yw pensiwn gwladol.
Mae person yn gallu cael pensiwn gwladol pan fydd yn cyrraedd oedran arbennig.


Os oes gennych bàs yn barod, byddwch chi’n cael ei gadw.

Byddwn yn newid yr oedran dros amser er mwyn i bobl ddod i arfer gyda'r rheolau newydd.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw    Nac ydw    Ddim yn siŵr


## Syniad 6 – Gwybodaeth am fysiau



Mae angen gwybodaeth ar bobl i'w helpu i ddefnyddio bysiau.

Mae angen gwybodaeth ar awdurdodau lleol i'w helpu i gynllunio gwasanaethau bysiau.

Mae angen i'r wybodaeth fod yn wybodaeth ddiweddar ac yn hawdd dod o hyd iddi.




Rydyn ni am newid y gyfraith fel bod mwy o wybodaeth ar gael am fysiau.

Rydyn ni am newid y gyfraith fel bod yn rhaid i gwmnïau bysiau roi gwybodaeth i awdurdodau lleol. Bydd yn rhaid iddyn nhw ddweud wrth yr awdurdodau lleol os ydyn nhw'n mynd i newid neu ganslo'r gwasanaethau bysiau maen nhw'n eu rhedeg.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

# Rhan 2 – tacsis a cherbydau hurio preifat

## Pam mae angen newidiadau



Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yn ffordd bwysig o deithio.

Maen nhw'n bwysig mewn ardaloedd **gwledig** lle does dim bysiau na threnau rheolaidd.

Ardaloedd sydd ddim yn drefi neu'n ddinasoedd yw ardaloedd gwledig.



Maen nhw'n helpu pobl anabl a phobl sydd heb geir.

Mae awdurdodau lleol yn rhoi **trwyddedau** i dacsis a cherbydau hurio preifat.

Trwydded yw rhywbeth sy'n caniatáu i rywun wneud rhywbeth fyddai ddim hawl gyda fe i'w wneud fel arall. Mae'n rhaid i berson dalu arian fel arfer ac efallai basio prawf i gael trwydded.

Mae'r gyfraith am dacsis a cherbydau hurio preifat yn rhy hen.

Mae hyn yn golygu:

- Bod cerbydau'n gallu bod yn wahanol iawn o un ardal i'r llall
- Ei bod yn anodd i bobl wybod bod pob cerbyd yn saff
- Bod person ddylai ddim cael trwydded yn gallu cael un
- Ei bod yn gallu bod yn anodd cymryd trwydded oddi ar yrrwr pan fydd wedi gwneud rhywbeth o'i le.




Rydyn ni'n meddwl y bydd gwneud cyfreithiau newydd yn helpu i wneud tacsis a cherbydau hurio preifat yn fwy diogel. Rydyn ni hefyd yn credu y bydd yn gwneud y system ar gyfer rhoi trwyddedau yn fwy syml.

Byddwn ni'n sôn am rai o'n syniadau ar y tudalennau nesaf.

## Syniad 1 – safonau cenedlaethol



Mae gan Gymru 22 o awdurdodau lleol. Mae gan bob un ohonyn nhw reolau gwahanol ar gyfer trwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat.

Mae'n rhaid i gerbyd a gyrrwr ddilyn y rheolau hynny er mwyn cael trwydded.

Unwaith y bydd gan dacsi neu gerbyd hurio preifat drwydded, mae'n gallu gweithio mewn unrhyw ardal fel arfer.

Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl bod gan unrhyw ardal yng Nghymru nifer o dacsis a cherbydau hurio preifat sy'n dilyn rheolau gwahanol.

Rydyn ni'n meddwl y dylai pawb ddilyn yr un rheolau.



Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni am gael **safonau** cenedlaethol.

Mae safon yn nodi'r hyn rydyn ni'n meddwl sy'n wasanaeth da. Mae'n rhywbeth rydyn ni'n ei ddefnyddio i benderfynu pa mor dda yw rhywbeth.

Un safon rydyn ni'n meddwl amdano yw un sy'n stopio cerbydau sy'n **llygru** rhag cael trwydded.

Mae llygru yn golygu gwneud rhywbeth yn fudr. Mae cerbydau'n llygru'r aer drwy ollwng nwyon sy'n ddrwg i bobl.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw        Nac ydw        Ddim yn siŵr

## Syniad 2 – gorfodi



Mae gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yn gwneud pethau'n anghywir weithiau. Pan fyddan nhw'n gwneud hynny, bydd yr awdurdod lleol yn gallu gwneud rhywbeth amdano.

Gallai hyn olygu cymryd eu trwydded oddi arnyn nhw.

Ar hyn o bryd, dim ond os nhw roddodd y drwydded i'r tacsi neu'r cerbyd hurio preifat yn y lle cyntaf y mae awdurdodau lleol yn gallu gwneud hynny.



Mae gan dacsis a cherbydau hurio preifat yr hawl i fynd i unrhyw le. Dydyn nhw ddim yn aros yn yr ardal lle cafodd y drwydded ei rhoi iddyn nhw.

Rydyn ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol allu gwneud rhywbeth os yw gyrrwr tacsi wedi gwneud rhywbeth o'i le.

Rydyn ni am roi pwerau i awdurdodau lleol gymryd trwydded tacsi neu gerbyd hurio preifat oddi ar y gyrrwr os oes angen gwneud hynny.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw        Nac ydw        Ddim yn siŵr

## Syniad 3 – rhannu gwybodaeth



Mae gan bob awdurdod lleol wybodaeth am y trwyddedau y maen nhw wedi eu rhoi.

Mae gyda nhw hefyd wybodaeth am drwyddedau y maen nhw wedi eu stopio neu eu cymryd oddi ar y gyrrwr.

Ar hyn o bryd does dim rhaid rhannu'r wybodaeth hon.

Mae hyn yn golygu dydy awdurdodau lleol ddim yn gwybod os oes ardal arall wedi **gwrthod** rhoi trwydded i yrrwr.


Ystyr gwrthod yw bod rhywun yn dweud wrthych dydych chi ddim yn cael rhywbeth.

Rydyn ni'n credu dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu gydag awdurdodau lleol eraill.

Byddai hyn yn golygu y byddai pob awdurdod lleol yn gwybod:

- os oes awdurdod arall wedi gwrthod rhoi trwydded i rywun
- pan fydd trwydded rhywun wedi ei gymryd oddi arno.

Mae'r rhan fwyaf o yrwyr yn cynnig gwasanaeth diogel i bobl. Rydyn ni am i awdurdodau lleol allu adnabod y rhai sydd ddim yn gwneud hynny.




Rydyn ni am newid y gyfraith fel ei bod yn hawdd i awdurdodau lleol rannu gwybodaeth am drwyddedau.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw    Nac ydw    Ddim yn siŵr

## Syniad 4 – awdurdod trwyddedu cenedlaethol



Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am drwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat yn ei ardal.

Mae hyn yn golygu bod 22 o awdurdodau lleol yn gwneud yr un math o waith.



Rydyn ni'n credu y byddai'n well cael 1 awdurdod cenedlaethol ar gyfer trwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat. Gallai hwn fod yn 'Gyd-awdurdod Trafnidiaeth'. Fe wnaethon ni sôn am Gyd-awdurdodau Trafnidiaeth ar dudalen 8.

Byddai hyn yn golygu y byddai:

- Pob gyrrwr a phob cerbyd yn cael eu trwyddedu gan 1 awdurdod
- Pob penderfyniad am gymryd trwydded oddi ar rywun yn cael ei wneud gan 1 awdurdod
- Yr holl wybodaeth am drwyddedau yn cael ei chadw gan 1 awdurdod
- Cymru i gyd yn 1 ardal drwyddedu.



Rydyn ni'n meddwl y byddai hyn yn gwneud trwyddedu tacsis yn rhwyddach.

Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

# Sut i roi eich barn

Eich enw

Eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn


Eich cyfeiriad

Ydych chi'n dweud beth rydych chi'n ei feddwl fel rhan o grŵp?

Os ydych, ysgrifennwch enw'r grŵp yma.



Byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr hyn bydd pawb yn ei ddweud wrthyn ni. Bydd yr wybodaeth hon hefyd ar gael ar y rhyngrwyd.



Os dydych chi ddim eisiau inni ddefnyddio'ch enw neu rywfaint o'ch cyfeiriad yn yr adroddiad, ticiwch yma.

Os ydych chi am inni gadw'r hyn byddwch chi wedi ei ddweud yn breifat, ticiwch yma.

# Rhestr o eiriau anodd

### Canllawiau

Dogfen yw canllawiau sy'n eich helpu i wneud yr hyn mae'n rhaid ichi ei wneud.

### Gwledig

Ardaloedd sydd ddim yn drefi neu'n ddinasoedd yw ardaloedd gwledig.

### Gwrthod

Ystyr **gwrthod** yw bod rhywun yn dweud wrthych dydych chi ddim yn cael rhywbeth.

### Llygru

Mae llygru yn golygu gwneud rhywbeth yn fudr. Mae cerbydau'n llygru'r aer drwy ollwng nwyon sy'n ddrwg i bobl.

## Masnachfreinio

Masnachfreinio yw pan fydd gan un cwmni bysiau gytundeb i redeg rhai gwasanaethau bysiau. Dydy cwmnïau eraill ddim yn cael rhedeg yr un gwasanaethau.

## Trwydded

Trwydded yw rhywbeth sy'n caniatáu i rywun wneud rhywbeth fyddai ddim hawl ganddo ei wneud fel arall. Mae'n rhaid i berson dalu arian fel arfer ac efallai basio prawf i gael trwydded.

## Rhanbarthol

Mae rhanbarthol yn disgrifio pethau sydd mewn ardal benodol o'r wlad.

## Safon

Mae safon yn nodi'r hyn rydyn ni'n meddwl sy'n wasanaeth da. Mae'n rhywbeth rydyn ni'n ei ddefnyddio i benderfynu pa mor dda yw rhywbeth.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36804 ISBN digidol 978-1-78964-609 2 ISBN argraffu 978-1-78964-616 0